

**CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**

<b>Cofnodion cyfarfod 11 Medi 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.</b>		
<b>PRESENNOL</b>		
Daniel Williams	Einir Coates	
Casi Roberts	Iwan Huws	
Eifion Williams	Nerys John	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
<b>1.0</b>	<b>GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU</b>	
	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gruff John, Aled Emyr, Iestyn Harris a Mei Gwilym.	
1.1	Croesawyd Iwan Huws fel Cynghorwr newydd y Cyngor Cymuned.	
<b>2.0</b>	<b>ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR</b>	
	Anfonwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sir.	
<b>3.0</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b>	
	Cynghorydd Iwan Huws Eitem 12.1	
<b>4.0</b>	<b>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL</b>	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Gorffennaf a Mis Awst. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.	
4.2	Trafodwyd derbyn mantolenni gan gyrff Cymunedol oedd yn derbyn cymorth ariannol gan y Cyngor. Mae'r swyddog Ariannol yn paratoi rhestr y ceisiadau ac yn datgan arno pwy sydd wedi anfon eu mantolen. Bydd rhai cyrff yn anfon eu mantolen yn hwyrach yn y flwyddyn felly penderfynwyd diweddarau'r rhestr yma a'u gyflwyno er gwybodaeth yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.	<b>SWYDDOG ARIANNOL</b>
4.3	Cyflwynwyd dogfen yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cyfrifon wedi eu cyllidebu a'r cyfrifon gwirioneddol gan y Swyddog Ariannol. Datganwyd byddai angen gwneud newidiadau: Llwybrau £1200; Gwefan £1200, Amrywiol £1000, Cysgodfannau £5000. Bydd cyllideb newydd yn cael ei baratoi erbyn y cyfarfod nesaf ar gyfer ei dderbyn yn ffurfiol.	<b>SWYDDOG ARIANNOL</b>
4.4	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod DBO wedi anfon rhai pwyntiau at y Cyngor oedd angen eu hangen gan gynnwys dangos ffotograff o hawliau'r cynghorwyr a chofrestr diddordebau'r cynghorwyr. Mae ymateb wedi ei anfon ond nid oes gohebiaeth bellach wedi ei dderbyn gan DBO. Penderfynwyd aros hyd nes derbyn yr ymateb. Yn y cyfamser bydd y clerc yn cysylltu	<b>CLERC</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	a Unllais i wneud ymholiadau ar yr hyn mae DBO wedi ei ddatgan.	
4.5	Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod wedi derbyn galwad ffôn oddi wrth Utility Aid Ltd ynglyn a chael gwell telerau ynni ar gyfer y Neuadd Goffa. Penderfynwyd trafod y mater hwn yng nghyfarfod nesaf is-bwyllgor Y neuadd	
4.6	Gofynnwyd y Cynghorydd Iwan Huws os oes polisi ar gyfer cyflwyno cymorth ariannol tro ar ôl tro i gyrff Cymunedol. Nid oes polisi'r cyfryw hyn. Penderfynwyd trafod y mater yng nghyfarfod y nesaf y Cyngor. Hefyd gofynnwyd am restr o'r mudiadau sydd wedi anfon mantolen i'r Cyngor yn dilyn derbyn yr arian.	<b>SWYDDOG ARIANNOL/CLERC</b>
<b>5.0</b>	<b>CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL</b>	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf fel rhai cywir.	
<b>6.0</b>	<b>NEUADD</b>	
6.1	Mae telerau ac amodau'r neuadd angen eu hanfon at Delwedd er mwyn eu rhoi ar y wefan. Deallir bod y rhai Saesneg yn barod gan y Cynghorydd Iestyn Harris. Y Clerc i anfon at y Cynghorydd er mwyn cael cwblhau'r mater.	<b>CLERC</b>
6.2	Mae angen pris ar gyfer y gwaith paentio – Y Cadeirydd am wneud cais i gontractwr lleol.	<b>DW</b>
6.3	Mae angen pris ar gyfer y ffenestri - y Cadeirydd am sicrhau cael pris.	<b>DW</b>
6.4	Mae trafodaeth ynglŷn â chyflog a gwaith y lanhawraig gyda'r lanhawraig wedi ei wneud. Mae hyn yn cynnwys trefnu i Gyngor Gwynedd godi'r bagiau sbwriel ar ol y casgliad. Mae'r lanhawraig wedi rhoi gwybod eu bod am ymddiswyddo. Nid oes llythyr yn cadarnhau wedi ei dderbyn. Mae'r Cyngor yn derbyn y rhybudd o'r ymddiswyddiad ond bydd angen cael llythyr i gadarnhau.	<b>DW/CLERC</b>
6.5	Mae prisiau ar gyfer gwaith ar y neuadd wedi eu derbyn, mae'r prisiau oddeutu £500 o bunnau ac felly yn unol â rheolau ariannol y Cyngor mae hawl i'r gwaith gael ei gwblhau heb orfod mynd i dendr. Bydd angen cysylltu â'r pensaer i gael cadarnhad atodlen blaenoriaeth gweddi'r o'r gwaith angenrheidiol.	<b>DW</b>
6.6	Dywedodd y Cadeirydd ei fod gyda thâp ar gyfer y cwrt badminton a byddai yn ddiolchgar am gymorth i'w osod. Bydd mewn cysylltiad gyda'r dyddiad.	<b>DW</b>
<b>7.0</b>	<b>ADRODDIAD COFEB Y CLOC</b>	

**CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**

7.1	Trafodwyd blodau'r cloc a chadarnhawyd mai tair gwaith y flwyddyn fydd gwaith gosod blodau yn cael ei wneud ar y lleoliad.	
<b>8.0</b>	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
8.1	C18/0638/18/TC – Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd neu weithgareddau presennol i ddefnyddio parc teuluol y Gelli Gyffwrdd (parc coedwig y Gelli Gyffwrdd gynt) fel parc antur – Y Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN - <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
8.2	C18/0658/20/LL – Estyniad unllawr i gefn yr annedd – Crossing Cottage, Beach Road, Y Felinheli, LL56 4RX – <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
8.3	C18/0542/20/CR – trosi adeilad allanol yn uned gwyliadu – Is Gaer, Plas Llanfair, Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, LL55 1TT – <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
8.4	C18/0732/20/LL - Codi ardal decio ynghyd a balustrade a chanllaw - 28 Beach Road, Y Felinheli, LL56 4RQ - <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
8.5	C18/0685/20/LL Codi modurdy newydd – 33 Y Wern, Y Felinheli, LL56 4TX – <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
8.6	C18/0763/20/LL – Estyniadau a newidiadau gan gynnwys grisiau allanol – Cilan, 30 Bryn Ffynnon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SX – <b>SYLWADAU</b> - mae'r Cyngor yn ystyried bod anhawsterau llif rhydd traffig ar Brynffynnon oherwydd pwysau parcio a mae bob cais cynllunio lle mae'r potensial i golli lle parcio yn yr ardal yn mynd i gynyddu'r sefyllfa.	<b>CLERC</b>
<b>9.0</b>	<b>ADRODDIAD Y FYNWENT</b>	
<b>9.1</b>	Adroddwyd bod y gwair angen ei dorri - y Clerc i wneud ymholiadau pa bryd fydd y toriad nesaf.	<b>CLERC</b>
<b>10.0</b>	<b>ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH</b>	
10.1	Lafant safle Moriah angen ei dorri – y Cadeirydd am wneud trefniadau i gael cyfarfod ar y safle i wneud hyn. Bydd manylion ar whatsapp.	<b>CLERC</b>
10.2	Dywedodd y Clerc bod y Swyddog Robin Perkins wedi symud swydd ac ar hyn o bryd nid oes swyddog ar gyfer y Lon Las. Mae ymholiadau neu sylwadau/cwynion i'w hanfon at Gerallt Jones swyddog cynnal llwybrau.	
10.3	Dywedyd bod cynlluniau Plas Bereton yn cynnwys gwyro'r Lon Las. Y Clerc i wneud	<b>CLERC</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	ymholiadau.	
10.4	Dywedodd y Cynghorydd Nerys John eu bod yn dal i ddisgwyl i swyddogion llwybrau Cyngor Gwynedd i Gysylltu â hi i drefnu cyfarfod i drafod arolwg llwybrau'r gymuned. Y Clerc i gysylltu â'r swyddogion. Dywedodd hefyd nad yw Cyngor Llanddeiniolen wedi cysylltu ynglŷn â llwybrau sydd yn berthnasol a'r ddau Gyngor. Y Clerc i weithredu ar hyn hefyd.	<b>CLERC</b>
<b>11.0</b>	<b>ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU</b>	
11.1	<p>i. Mae pris o £320 wedi ei dderbyn ar gyfer glanhau holl gysgodfannau o fewn y pentref. Derbyniwyd y pris a chytuno i'r gwaith gael ei wneud. Ffurflen contract bach syml i chael ei chreu.</p> <p>ii. Mae tyfiant wedi ei dorri ar gysgodfa'n gyferbyn a Cwrt Menai mae ychydig mwy o dorri ei angen. Penderfynwyd gofyn i'r un contractwr i wneud y toriad pellach.</p> <p>iii. Dywedodd y Clerc bod cyfarfod wedi ei drefnu a'r Swyddog perthnasol a'r Cynghorydd Eifion Williams ar gyfer lleoli'r cysgodfan bren yn Aberpwll.</p> <p>iv. Mae gwaith o gynnal coed y cysgodfan yn Aberpwll angen cael pris.</p> <p>v. Mae angen gwaith cynnal i fainc ger Stepiâu Cei, mae pris o £110 wedi ei dderbyn penderfynwyd symud ymlaen a'r gwaith.</p>	<p><b>Y CLERC</b></p> <p><b>DW</b></p> <p><b>DW</b></p> <p><b>DW</b></p> <p><b>DW</b> <b>DW</b></p>
11.2	Rhodddwyd gwybodaeth i'r Cyngor bod Cyngor Gwynedd wedi dod a difrod i'r ffens Llwybr Rowen i sylw perchennog y tir.	
11.3	Cynghorydd Eifion Williams am atgoffa'r Contractwr i anfon pris atgyweirio ffens Llwybr Cerrig yr Afon ar y Clerc.	<b>EW</b>
<b>12.0</b>	<b>ADRODDIAD PRIFYRDD</b>	
12.1	Mae gwahoddiad wedi ei dderbyn oddi wrth Cadeirydd/Ysgrifennydd Tregwylan i Gadeirydd y Cyngor i gyfarfod blynyddol y cwmni. Penderfynwyd byddai'r Cadeirydd yn cyfarfod Mr Allan Bowers yngyd a'r Cynghorydd Iawn Huws a Chynghorydd Iestyn Harris tu allan i'r cyfarfod blynyddol ac yna i wneud penderfyniad os bydd angen mynychu'r	<b>DW</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	cyfarfod blynyddol.	
<b>13.0</b>	<b>PROSIECTAU</b>	
	Mae angen trefnu dyddiad ar gyfer hel ysbwriel, y Cynghorydd Nerys John i drefnu ar gyfer 23 Medi 2018. Bydd hefyd yn trefnu Taith Gerdded Cymunedol i gerdded y Llwybr arfordir ar y 7 Hydref 2018.	
<b>14.0</b>	<b>GWYDNWCH CYMUNEDOL</b>	
	Dywedodd y Cynghorydd Eifion Williams ei fod angen cwblhau'r cynllun a gobeithir ei ddangos yn y cyfarfod nesaf.	<b>EW</b>
<b>15.0</b>	<b>TOILEDAU CYHOEDDUS</b>	
15.1	Dywedodd y Clerc ei bod wedi cael trafodaeth a Swyddog Eiddo Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r toiledau. Roedd y Swyddog heb gael unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r toiledau gan y bragdy. Bydd y swyddog yn cysylltu â'r bragdy ac yn copio'r Cyngor yn yr e-bost.	<b>CLERC</b>
<b>16.0</b>	<b>GWEFAN</b>	
16.1	Gweler eitem 6.2	
<b>17.0</b>	<b>MATERION AMRYWIOL</b>	
17.1	Defib y Felin - dywedodd y Cynghorydd Eifion Williams bod cyfarfod pwyllgor codi arian ar gyfer defibs i'w gynnal nos fory. Bydd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor y Mis nesaf.	<b>EW</b>
17.2	Clwb Ieuenctid. Nid oes cais ffurfiol wedi ei wneud i'r Cyngor ynglŷn â sicrhau parhad i'r gwasanaeth o fewn y pentref..	
17.3	Darparu Tai drwy'r sustem gynllunio - Y Clerc i anfon yr ymgynghoriad i'r Cynghorwyr ac os ydynt am i'r Cyngor ymateb yna bydd angen iddynt hysbysu'r Clerc a'u sylwadau.	<b>CLERC</b>
17.4	Paentio'r Byd yn Wyrdd – trafodwyd y mater. Y Clerc i ymateb	<b>CLERC</b>
17.5	Goleuadau Nadolig – y Clerc i anfon ymlaen manylion offer goleuadau Nadolig at y Cynghorwyr.	<b>CLERC</b>
17.6	Y Rhyfel Mawr - Y Cynghorydd Casi Roberts, Eifion Williams ac Einir Wyn Coats i weithio tuag at gynnal arddangosfa. Y Cadeirydd Daniel Williams i wneud ymholiadau a rhai aelodau'r gymuned am wybodaeth a defnyddiau. Y Clerc i sicrhau Gorchymyn ar gyfer gwahardd traffig trwodd ar Sul y Cofio.	<b>CR/DW/EW</b>  <b>CLERC</b>
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 22:10	
<b>Llofnod:</b>		<b>Dyddiad:</b>